Pwrpas y ddogfen hon yw nodi a diffinio'r dyddiad terfynol misol o ran prosesau'r Adnoddau Dynol a'r Gyflogres a'r camau y mae'n rhaid i'r Colegau Academaidd a'r Ysgolion, a Chyfarwyddiaethau'r Gwasanaethau Proffesiynol eu cymryd i weithredu newid ar y gyflogres.

Caiff staff y Brifysgol a'r is-gwmnïau eu talu ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid cwblhau'r holl brosesau erbyn adeg benodol bob mis, er mwyn i'r newidiadau hynny gael eu hadlewyrchu yng nghyflogau'r mis hwnnw.

Felly, mae hynny'n ymwneud â materion megis **dechreuwyr newydd, newidiadau mewn oriau, ac estyniadau i gontractau.**

Dyddiad terfynol prosesau misol y gyflogres fel arfer yw'r 10$^{fed}$ o'r mis. Fodd bynnag, mae hynny'n newid, er enghraifft adeg y Pasg a'r Nadolig, ac yn yr achosion hynny, bydd hysbysiad ym Mwletin y Staff.

**Beth mae dyddiad terfynol y Gyflogres yn ei olygu mewn gwirionedd?**
Dyddiad terfynol y gyflogres yw'r dyddiad olaf y mae'n bosib gwneud newidiadau, er mwyn i'r newidiadau hynny gael eu hadlewyrchu yn eu tro yng nghyflogau'r mis hwnnw. O ran gwneud newid, mae hynny'n golygu bod y newid wedi'i gymeradwyo'n llawn a'i brosesu erbyn y dyddiad hwnnw.

O ran y senarios penodol uchod;
**Dechreuwyr newydd** – Bydd eu contractau cyflogaeth yn nodi bod yn rhaid dychwelyd y contract a chwblhau'r holl wiriadau sy'n angenrheidiol cyn-cyflogaeth, cyn y 10$^{fed}$ o'r mis er mwyn eu talu yn ystod eu mis cyntaf. Os na chaiff hynny ei wneud, caiff yr aelod o'r staff ei dalu'r mis canlynol – ac efallai y caiff y dyddiad dechrau ei wthio'n ôl hefyd os na chafodd y gwiriadau cyn-cyflogaeth eu cynnal cyn y dyddiad arfaethedig gwreiddiol.

Felly, mae'n rhaid i Reolwyr Recriwtio gofio hynny wrth gytuno ynghylch y dyddiad dechrau cyflogaeth. Mae hynny'n berthnasol i swyddi a hysbysebir a swyddi nad ydynt yn cael eu hysbysebu. Rhaid caniatáu o leiaf 7 diwrnod gwaith i'r Adnoddau Dynol gynnal y gwiriad ID ynghylch yr hawl i weithio cyn-cyflogaeth a drafftio a chyflwyno'r contract cyflogaeth. Ni ddylid cyfarwyddo aelod o'r staff i ddechrau ar y gwaith cyn derbyn contract cyflogaeth oddi wrth yr Adnoddau Dynol. O wneud cynnig o gyflogaeth ar lafar, rhaid i'r rheolwr recriwtio ei gwneud yn glir mai dyddiad dechrau targed yw'r dyddiad dechrau disgwyliedig a'i fod yn amodol ar gwblhau'r holl wiriadau cyn-cyflogaeth cyn y dyddiad hwnnw.

Rhaid cynnal gwiriad ID cyn i'r unigolyn ddechrau gweithio. Yn yr un modd, mae deddfwriaeth cyflogaeth yn nodi bod yn rhaid cyflwyno'r telerau ac amodau cyflogaeth cyn diwrnod cyntaf y gyflogaeth, neu ar y diwrnod. Felly ni ellir ôl-ddyddio dyddiadau dechrau a rhaid caniatáu o leiaf 7 diwrnod gwaith i'r Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau y gall y Brifysgol gyflawni'r rhwymedigaethau cyfreithiol sydd arni. Bydd yr Adnoddau Dynol yn newid dyddiadau dechrau os nad oes digon o amser wedi'i roddi.

**Newid mewn oriau** – Os gofynnir am gynnydd mewn oriau, rhaid cymeradwyo'r cais yn llawn. Dim ond ar ôl cymeradwyo y caiff yr atodiad contract ei ddrafftio a'i gyflwyno, ac y caiff y gyflogres ei diwygio. Os digwydd hynny erbyn y dyddiad cau, telir y cyflog a addaswyd yn y mis hwnnw. Os nad yw hynny'n bosibl caiff yr addasiad ei wneud i'r cyflog yn y mis canlynol. Mae'n bosibl na chaiff cais i newid oriau ei awdurdodi ac felly dylech sicrhau eich bod yn cyflwyno'r cais mewn da bryd cyn y dyddiad dechrau arfaethedig.

**Estyniadau i gontractau** - Os yw'n fwriad ymestyn contract, rhaid i'r estyniad hwnnw gael ei gymeradwyo'n llawn erbyn y terfyn amser misol (mae cymeradwyo'n llawn yn golygu cwblhau proses gyfan o gymeradwyaeth gan y Bwrdd Gweithredol, cymeradwyaeth Cyllid/IRIS a bod yr Adnoddau Dynol wedi cael cadarnhad o gwblhau cyn y terfyn amser misol. Os gwnaed y cais am gymeradwyaeth gan y Coleg / Ysgol / Cyfarwyddiaeth dan sylw, ond nad yw wedi'i gymeradwyo'n llawn, ni wneir taliad i'r aelod unigol o'r staff. Ni chaiff taliad ei wneud heb gymeradwyaeth. Mae'n bosibl na chaiff unrhyw gais i newid oriau ei awdurdodi ac felly dylech sicrhau eich bod yn cyflwyno'r cais mewn da bryd cyn y dyddiad dechrau arfaethedig. Bydd rheolwyr yn derbyn rhybuddion e-bost oddi wrth iTrent 120 o ddiwrnodau cyn dyddiad darfod y contract presennol gan ganiatáu digon o amser ar gyfer y prosesu.

I'r rhai sy'n ymwneud ag ymarferion recriwtio a dethol, cafodd nifer o ganllawiau byr, hawdd eu defnyddio eu datblygu:

Mae'r canllawiau cynllunio ar gyfer apwyntiad llwyddiannus yn disgrifio rhai camau ac ystyriaethau allweddol sy'n ymwneud â recriwtio i swydd wag.

Mae'r rhestr wirio canllawiau a chyfeirio cyflym yn nodi ystyriaethau allweddol pob cam o'r ymarfer recriwtio a dethol.

Mae dogfen yr amserlenni recriwtio a dethol yn darparu amserlen ddangosol o'r adeg y caiff rôl ei nodi, i'r adeg y byddai unigolyn yn dechrau cyflogaeth.

Cynigir hyfforddiant rheolaidd hefyd ar Bolisi a Gweithdrefn Recriwtio a Dethol y Brifysgol. Gweler y dyddiadau y cânt eu cynnal ar yr amserlen hyfforddi.

I grynhoi – mae Dyddiad Cau'r Gyflogres yn golygu bod unrhyw gais i amrywio contract/cais am gontract yn cael ei brosesu'n llawn cyn y dyddiad cau hwnnw fel a ganlyn:

- Cymeradwywyd gan y cymeradwywr Gweithredol
- Cymeradwywyd gan Gyllid/IRIS
- Gwiriadau cyn-cyflogaeth (i bob dechreuwr newydd, ac i ddeiliaid fisa gydag estyniadau) gan yr Adnoddau Dynol
- Yr Adnoddau Dynol yn cyflwyno Contract
- Dechreuwyr newydd yn dychwelyd y manylion personol (e.e. cyfrif banc ac yn y blaen).